



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys**

Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011

Chwarter 1 2019/20 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad

Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSRA) 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pobl ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 PRSRA yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl, Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiad â'r Gorchymyn Protocol Plismona 2011 datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n ymdrin â phob agwedd ar y protocol y mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 61 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn yr OPCC, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 57 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr RAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder

Gwyrdd – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol


Ambr – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol

Coch – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter blaenorol.

Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch1 y flwyddyn ariannol 2019/20 (Ebrill/Mai/Mehefin 2019)



Cymhariaeth statws RAG

UN oes gan un o'r camau gweithredu statws coch

Bu rhywfaint o newid mewn statws y chwarter hwn, sef cynnydd o 1% mewn statws coch, gostyngiad o 10% mewn statws ambr a chynnydd o 9% mewn statws gwyrdd.



Adolygwyd y gwiriad iechyd yn ddiweddar, ac erbyn hyn, dim ond 53 maes gweithredu sydd i'w hystyried yn hytrach na'r 57 yr adroddwyd amdanynt mewn chwarteri blaenorol.

Hefyd, argymhellwyd y dylai pob maes busnes roi ystyriaeth fwy gofalus i'r lefel gydymffurfiaeth wrth iddynt raddio meysydd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pob maes yn adlewyrchu gofynion y Gorchymyn Protocol Plismona yn gywir.

Ar hyn o bryd, mae un maes gweithredu wedi'i farcio'n goch – nid yw'n cydymffurfio – Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian.

Mae pob maes arall yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categori.

17g – Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu - (4/7) 57% ambr

17h – Mynd i drefniadau cydweithio gyda chyrff plismona Comisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill a phartneriaid - (2/3) 67% ambr

17i – Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio I roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith – (3/5) 60% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n Ofynnol	Statws CAG	Diweddariad ar Gynnydd Ch1 (Ebr/Mai/Meh 2019)
Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddau sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddff Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Mae gwaith wedi cychwyn ar gyfer cwmpasu'r Cynllun Heddlu a Throseddau nesaf, a fydd angen ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2021 yn dilyn yr etholiadau nesaf ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddau wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddau; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'r cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddau ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae adolygiad ffurfiol o drefniadau llywodraethu SCHTh wedi'i gynnal ar y cyd gydag adolygiad yr Heddlu o'u trefniadau llywodraethu. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud i strwythurau i sicrhau llif effeithlon o wybodaeth i gefnogi craffu effeithiol. Mae'r strwythur newydd wedi'i weithredu o 1 Mehefin 2019.
		Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Cynhaliwyd adolygiad trylwyr a chyhoeddwyd Fframwaith diwygiedig ar 1/4/19. Mae camau gweithredu'n parhau er mwyn diweddarau rhai dogfennau cysylltiedig.
		Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Ar ôl cyflwyno fframwaith craffu SCHTh, mae blaengynllunio a'r amryw o ddulliau craffu wedi gwella. Mae hyn, yn ei dro, wedi cynyddu'n gallu i adolygu pynciau ychwanegol, fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn o ran gweithgarwch, ynghyd â pharatoadau ar gyfer y peilot dalfeydd newydd a chyfnodau o wyliau blynyddol, wedi arwain at gyflwyno adroddiadau'n arafach nag y byddem yn dymuno. Mae oedi o ran derbyn ymatebion gan yr Heddlu i'n hadroddiadau wedi'u datrys yn awr, a daethpwyd i gytundeb ynghylch sut i osgoi oedi yn y dyfodol. Ar y cyfan, bu adborth gan y Paneli'n gadarnhaol, a disgwylir gweld gwelliannau pellach mewn chwarteri i ddod.
		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau		Bu'r cyfnod hwn yn brysur iawn gyda nifer o weithgareddau craffu, gan gynnwys cyfarfod y Panel Craffu ar Warediadau Tu Allan i'r Llys, dau gyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd ac adolygiad "ciplun" cyntaf SCHTh (o brosesau stopio a chwilio sy'n ymwneud â phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) a anogwyd gan awgrymiadau parhaus bod pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu chwilio nag unrhyw ethnigrwydd arall. Nid oedd yr adolygiad amser cyflym a gynhaliwyd gan staff SCHTh wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod pobl

				dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu'n amhriodol gan fod sail ddigonol ym mhob achos dros cyfiawnhau chwilio, a oedd wedi'u dogfennu'n dda iawn ar y cyfan.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		Ymatebwyd i'r ddau adroddiad o fewn yr amserlen statudol.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae'r gwiriad iechyd Protocol Plismona wedi bod mewn grym ers Hydref 2018. Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf. Mae'r gwiriad iechyd yn cael ei gwblhau gan bob maes busnes ar sail chwarterol er mwyn dangos gwella parhaus.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu sy'n cynnwys y Bwrdd Atebolrwydd Plismona sy'n gyfarfod cyhoeddus lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ychwanegol ceir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol wedi'u cysylltu â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Ymhlith yr eitemau agenda sefydlog y mae Cyllid ac Adnoddau Dynol Strategol.
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddwyd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17d	Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Darparwyd gwybodaeth fanwl i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ystod 2018/19 i hysbysu ei benderfyniad mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys seminar a oedd yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio lle mynegodd y Prif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid sefyllfa gyfredol yr Heddlu a rhagweld yr heriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
		Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig		Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2019
		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol		Rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 wedi'i gosod a'i hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Ionawr 2019
Penodi'r Prif Gwnstabl	17e	Penodi'r Prif Gwnstabl		Mark Collins wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd

Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17f	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17g	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliad Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl o adnoddau.
		Cydymffuriad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Mae'r gydymffurfiaeth statudol bellach wedi newid o fod yn fewnol i'r darparwr rheoli cyfleusterau CBRE. Mae hyn wedi gweld ffigurau'n aros ar yr un lefel fwy neu lai i gychwyn, fodd bynnag, mae'r gwelliannau sy'n cael eu mesur drwy ddangosyddion perfformiad allweddol wedi gosod y targed hwn i'r 90au canol/uwch ar gyfer y chwarter canlynol.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Lansiwyd Grŵp Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cadw materion amgylcheddol/cynaliadwyedd ar dop ei agenda. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol a bydd cyfarfod cychwynnol ar gyfer y prosiect Amgylcheddol yn cael ei gynnal ym mis Medi.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Mae'r Ymgynghorydd Ariannu Allanol yn ymgymryd â sganio amgylcheddol yn ddyddiol, ac mae prosiectau ar gyfer y dyfodol yn cael eu trafod gyda'r heddlu. Rydyn ni'n gweithio gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin er mwyn edrych ar arian cyfatebol ar gyfer y buddsoddiad Llanelli i mewn i wardiau Glan-y-môr a Thyisha.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Bu trafodaethau rhwng SCHTh a'r Adran Fflyd mewn perthynas â'r posibilrwydd o noddi rhai cerbydau ar draws yr Heddlu. Mae'r mater yn destun ymchwiliad.
		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		Mae cofrestrau risg mewn grym ac yn eitem agenda yng nghyfarfodydd misol y Tîm Gweithredol, lle maen nhw'n trafod unrhyw risgiau newydd/risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r 5 prif risg.
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae amcanion Proffil Datblygu ac Asesu'n cael eu cynnal ar gyfer holl aelodau staff SCHTh, sy'n cynnwys trafodaethau ynghylch anghenion datblygu a hyfforddi. Mae cyllideb benodol ar gael ar gyfer hyfforddiant er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol.
		Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a	17h	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru

Throseddu eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Rydyn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid allanol ar ddatblygu prosiectau sy'n cwmpasu tir cyffredin. Mae'r 4 Heddlu'n parhau i gydweithio ar y prosiect Cronfa Ymyrraeth Gynnar leuenctid ac maen nhw'n cynnal trafodaethau er mwyn ystyried prosiect ar gyfer y Gronfa Gwaddol leuenctid yn y dyfodol. Rydwn ni'n cydweithio â phartneriaid yn Llanelli er mwyn buddsoddi yn wardiau Glan-y-môr a Thyisha.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio		Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Bydd yr ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwyntiedig tuag at graffu ar y cyd, a fydd yn cael ei gweithredu yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Medi 2019
Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith	17i	Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu SCHTh, gan gynnwys rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith CHTh a'r PG yn rhagweithiol		<p>Mae CHTh a'r PS wedi gorffen a chymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu. Anfonwyd y strategaeth at yr Uned Gyfieithu. Bydd yn cael ei rhoi ar y wefan.</p> <p>Cynhyrchu cynllun gweithredu / rhaglen weithgareddau yn ystod Ch2.</p> <p>Fforwm leuenctid 15 Mai 2019.</p> <p>Cyfarfu 9 aelod o'r Fforwm leuenctid ym Mhencadlys HDP yng Nghaerfyrddin ar gyfer eu hail gyfarfod. Roedd cynrychiolwyr o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn bresennol. Nid oedd modd i gynrychiolwyr o Bowys fod yn bresennol, ond cynigiwyd trefniadau Skype iddynt yn lle hynny. Yn ogystal â chyflwyniad gan Fearless, ffocws y sesiwn oedd gofyn am farn y fforwm ar gysylltiad cychwynnol â'r heddlu. Defnyddir y canfyddiadau i hysbysu'r adolygiad craffu dwys diweddaraf ar Gyswllt yr Heddlu a Hygyrchedd.</p> <p>Cychwynnodd Ymgyrch Cynefin yn nwyrain y Drenewydd ym mis Mehefin 2019. Mae'n parhau yn Ch2. Postiodd y Tîm Plismona Bro arolygon drwy flychau post mewn dros 900 o gyfeiriadau yn ardal ddwyreiniol y Drenewydd. Roedd yr arolwg yn gofyn am farn preswylwyr ar bryderon a materion lleol, a'u Tîm Plismona Bro. Y dyddiad cau yw 12 Gorffennaf 2019. Bydd y canlyniadau ar gael yn Ch2, a byddant yn cael eu rhannu â'r Tîm Plismona Bro, partneriaid a phreswylwyr. Yna, bydd cyfarfod amlasiantaeth yn cael ei drefnu. Bydd partneriaid cysylltiedig yn dibynnu ar bryderon lleol a godir. Byddwn ni'n cael y bobl iawn yn yr ystafell er mwyn i bobl lleol drafod problemau lleol a datrysiadau.</p> <p>Trafodwyd materion lleol gyda swyddogion lleol, grwpiau cymunedol / sefydliadau amrywiol a phreswylwyr yn ystod ddau ddiwrnod ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd yn Ch1. Yn ystod y diwrnodau hyn, mae'n gyffredin i swyddog lleol fod yn bresennol ar gyfer ymweliadau CHTh fel bod modd i'r Tîm Plismona Bro gael gwybod am faterion lleol a drafodwyd gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.</p> <p>Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod mis Mai a mis Mehefin ar amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Cynhaliwyd arolwg ar y cyd er mwyn ceisio barn preswylwyr am eu profiadau nhw, ac eraill, wrth geisio</p>

				<p>cael mynediad at amrediad o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau'r heddlu.</p>
		<p>Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau</p>		<p>Parhau i hyrwyddo ymgynghoriadau/digwyddiadau ymgysylltu a fformatau cyfathrebu amgen:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyfryngau cymdeithasol - Datganiadau i'r wasg - Ar lafar - Gyda help tимоedd plismona bro a phartneriaid eraill - Gall unigolion gysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu drwy lythyr, dros y ffôn, drwy e-bost, drwy'r ffurflen gyswllt ar-lein, drwy gyfryngau cymdeithasol, neu yn ystod un o'i ddigwyddiadau ymgysylltu. <p>Mae'r cylchlythyr ar gael yn electronig ac ar bapur. Mae'r cylchlythyr ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig, ac yn Saesneg yn unig, ac mae modd ei ddarparu mewn print ar gais. Byddem hefyd yn ystyried fersiynau eraill pe baem yn derbyn cais.</p> <p>Cyfarfu'r Fforwm Ieuentid ar 15 Mai 2019. Gofynnem am farn a safbwyntiau'r bobl ifainc ynghylch cysylltiad cychwynnol â'r heddlu. Mae'r Fforwm yn cynnwys aelodau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, megis sipsiwn, teithwyr a roma, ac mae gwaith yn digwydd er mwyn sicrhau bod hyn yn dod yn fwy cynrychioladol.</p> <p>Rydyn ni'n parhau i ddatblygu'n rhwydwaith o Lysgenhadon Cymunedol, lle mae cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn cytuno i fod yn bwynt cyswllt cyntaf i ni ar gyfer ymgynghori/rhannu gwybodaeth. Yna, maen nhw'n rhannu gwybodaeth gydag aelodau o'r grŵp maen nhw'n</p>

			<p>cynrychioli ac yn gofyn cwestiynau iddynt.</p> <p>Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.</p> <p>Dim hyfforddiant yn ystod Ch1, ond mae Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad CHTh yn sicrhau bod pob aelod staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf, gan gynnwys hyfforddiant mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>
		Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon	<p>O'r ddau gofnod na chafodd eu cau o fewn 30 diwrnod – roedd ymholiadau'n parhau mewn perthynas ag un cofnod rhwng HDP a Heddlu Swydd Warwick ac arhosodd y cofnod ar agor hyd nes i'r Comisiynydd gwrdd â'r achwynydd mewn digwyddiad ymgysylltu. Arhosodd yr ail gofnod ar agor er mwyn caniatáu i GanBwyll ymweld â safle a rhoi diweddariad i SCHTh roi i'r achwynydd gyda chanlyniad eu hymweliad. Does dim pryderon o ynghylch amseroldeb mewn perthynas â'r cofnodion hyn.</p>
		Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu	<p>Mae ein sylfaen wirfoddolwyr dal yn iach iawn, gyda'r tîm yn ymateb yn effeithiol pan fod angen recriwtio aelodau ychwanegol.</p> <p>Mae SCHThDP wedi llwyddo i dderbyn Gwobr Sicrwydd Safon Aur Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, o ganlyniad i waith caled y Swyddog Cymorth Ansawdd.</p> <p>Cyrhaeddodd y Panel Sicrhau Ansawdd rownd derfynol Gwobrau HDP ar gyfer y categori Gwirfoddolwr y Flwyddyn. Hefyd, mae SCHThDP wedi'i dewis fel yr unig ardal yng Nghymru (un o ddim ond 7 yn y DU) i gymryd rhan yn y cynllun peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol sy'n cael ei dreialu gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Math o graffu uwch ar ddalfeydd yw'r cynllun peilot hwn, sy'n ymwneud ag ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn mynd i swyddfa er mwyn adolygu cofnodion dalfa wedi'u golygu i asesu agweddau ychwanegol o garchariad unigolyn. Mae'r Swyddog Cymorth Sicrwydd wedi treulio llawer o amser y chwarter hwn yn paratoi ar gyfer y cynllun peilot, sy'n cychwyn ar 1 Medi 2019.</p>
		Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus	<p>Mae dwy broses dendro'n digwydd ar hyn o bryd, ac mae'r ddwy'n profi ymatebion y darparwyr mewn perthynas â hygyrchedd darpariaeth gwasanaeth. Nid oes cwynion wedi'u derbyn hyd yn hyn. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ganol y flwyddyn.</p>

Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaetha u swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17j	Fel y nodir yn 17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i fynd i'r afael â pherfformiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl	17k	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		Hysbyswyd SCHTh ar 14 Ebrill ei bod wedi derbyn Nod Ansawdd Tryloywder 2019 CoPaCC (Cymharu Comisiynydd Heddlu a Throseddau).
		Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd		Rhodddwyd nod ansawdd i 28 Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau eleni, a bydd cyflwyniadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn Uwch-gynhadledd Llywodraethu'r Heddlu ym mis Gorffennaf. Mae Grant Thornton, y darparwr sicrwydd arweiniol, yn noddi Dadansoddiad Nod Ansawdd Tryloywder CoPaCC a'r gwobrau cysylltiedig. Dyweddodd Paul Grady, y Pennaeth Heddlu ar gyfer Grant Thornton: 'O'm rhan i, mae'r holl swyddfeydd hyn wedi dangos eu bod nhw'n dryloyw o ran yr hyn maen nhw'n gwneud, gan fodloni gofynion cyfreithiol perthnasol. Maen nhw'n cyflwyno gwybodaeth allweddol mewn fformat hygyrch ar eu gwefannau. Rwy'n llongyfarch pob un ohonynt am eu gwaith arobryn, ac edrychaf ymlaen at yr hyn yr hyderaf y bydd yn waith ardderchog parhaus gan bob un ohonynt yn y maes hwn.
		Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu'n rheolaidd fel arfer cyn i unrhyw beth gael ei gyhoeddi, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un peth bob amser.
		Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol		Mae rhai erthyglau cenedlaethol ac erthyglau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu rhyddhau sy'n canolbwyntio ar wasanaethau dioddefwyr. Mae angen gwaith pellach gyda'r Tim Ymgysylltu er mwyn creu amserlen ar gyfer gweithgarwch y wasg yn y dyfodol. Bydd y wefan yn cael ei gwirio a'i diweddarau.
Cydymffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	17l	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau		Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi mynychu'r holl gyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau, ynghyd â swyddogion statudol – Y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol.
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddau yn unol â'u ceisiadau		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon yn unol â'u ceisiadau. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolwyr o'r Panel Heddlu a Throseddau ar fforymau eraill megis y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, y Bwrdd Comisiynu a'r Cydbwyllgor Archwilio.

		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr.
Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol	17m	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		Cafodd Adroddiad Blynyddol 2018/19 ei baratoi a'i gyhoeddi gan Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd CHTh. Cynorthwyodd y Tîm Ymgysylltu â pheth o'r cynnwys, a gyda phrawfddarllen yr adroddiad ac ati. Bydd hefyd yn cael ei hyrwyddo yng nghylchlythyr y Comisiynydd yn Ch2.
Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17n	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Derbyniwyd un gŵyn yn erbyn y PG yn ystod y chwarter diwethaf – nid oedd yr achwynydd yn glir i gychwyn rhwng cwyn yn erbyn yr heddlu a chwyn yn erbyn y PG, felly syrthiodd y penderfyniad cofnodi tu allan i 10 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio â chofnodi. Apeliodd yr achwynydd yn erbyn hyn, ond ni chynhaliwyd yr apêl hon gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu; fodd bynnag, nododd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o fewn 10 diwrnod gwaith ar gyfer dysgu yn y dyfodol.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Mae nifer yr achosion goruchwyllo wedi lleihau'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf – gyda Swyddfa'r Comisiynydd nawr yn goruchwyllo un achos mawr yn unig.
		Craffu ar y ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Cymeradwywyd y Fframwaith Craffu ar Gwynion a'r Protocol Hap-samplu yn y Bwrdd Plismona ar 4 Gorffennaf 2019. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cyfieithu ers hynny, yn barod i'w cyhoeddi ar wefan SCHTh.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf Heddlu a Throseddu 2017		Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng HDP, HGC a Gwent ynghylch rôl apelïadau. Mae cynnig Sancus ynghylch cymorth apêl hefyd yn cael ei ystyried.
Ni ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Cynhaliwyd adolygiad trylwyr a chyhoeddwyd fframwaith diwygiedig ar 1/4/19. Camau gweithredu'n mynd rhagddynt er mwyn diweddarau rhai dogfennau cysylltiedig.
Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff	19	Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		Mae adran 3.7 o'r FfLIC yn nodi cyfrifoldebau CHTh a'r PG.

		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		<p>Mae dal peth gwaith i'w wneud o ran tacluso ein plattform mewn perthynas â gwybodaeth rydyn ni'n dal er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r polisi cadw a gwaredu.</p> <p>Mae SCHTh wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o brosiect y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth sy'n edrych ar ddiogelu data a rhyddid gwybodaeth. Bydd hyn yn digwydd dros yr ychydig chwarteri nesaf.</p> <p>Mae SCHTh yn hyderus bod yr holl brosesau a pholisïau perthnasol mewn grym ganddynt er mwyn sicrhau y glyniwr wrth ddeddfwriaeth.</p>
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau		<p>Mae dogfennau comisiynu ar gael, ac fe'u cyhoeddir ar wefan CHTh. Mae darpariaeth gwasanaeth, cyfarfodydd thema'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a chyllideb wedi'i chomisiynu yn gyson â'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddau ei hun yn gyson â blaenoriaethau strategol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.</p>
		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		<p>Mae CHTh yn rhoi cyllid cyfatebol yn erbyn grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau bod dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn medru cael mynediad at yr un ddarpariaeth gwasanaeth â dioddefwyr trosedd. Daw hyn o gyllideb graidd CHTh ei hun. Mae CHTh dal yn cefnogi gwasanaethau partneriaethau diogelwch cymunedol a Gwasanaethau Atal Troseddau leuencid drwy roi dros £280,000 i'r partneriaethau. Mae CHTh yn comisiynu gwasanaethau cyfiawnder adferol i ddioddefwyr, ac ar hyn o bryd, mae'n gweithio gyda'r Heddlu er mwyn sicrhau bod dioddefwyr sydd wedi derbyn canlyniad gan lys yn cael cynnig mynediad i gyfiawnder adferol wedi'i hwyluso gan ddarparwr sydd wedi'i gymeradwyo gan nod ansawdd.</p>
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		<p>Mae fframwaith Cronfa Gymunedol y Comisiynydd eisoes mewn grym ac wedi'i weithredu. Mae'r broses yn cael ei monitro er mwyn sicrhau bod y broses gyfredol dal yn addas ar gyfer y diben.</p>
		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn yn 2019/20		<p>Rhannwyd £127,544 rhwng 19 prosiect ar draws y 4 sir yn ardal Dyfed-Powys drwy Gronfa Gymunedol y Comisiynydd.</p>
		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		<p>Bydd proses werthuso'n cael ei sefydlu a'i gweithredu unwaith y bydd rownd bresennol grantiau Cronfa Gymunedol y Comisiynydd wedi gwreiddio.</p>
Cytundebau cydweithio	20d	Fel y nodir yn 17h		

Cyfrifoldeb ehangach ar gyfer cyfoethogi cyflenwi cyfiawnder troseddol yn yr ardal	20e	Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian		Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaeth wedi parhau, fodd bynnag, nid yw ymweliadau safle wedi cychwyn eto. Mae cynnydd yn erbyn hyn wedi'i oedi o ganlyniad i recriwtio'r swyddog cymorth ganol mis Gorffennaf 2019. Bydd y daliwr swydd yn canolbwyntio ar y maes gwaith hwn unwaith y bydd yn gyfarwydd â'r gwaith, felly byddwn yn cydymffurfio erbyn diwedd Ch3/Ch4.
		Cyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Rhodddwyd diweddariad a bu'n bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019
		Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		<ul style="list-style-type: none"> • Y Bwrdd Plismona Digidol ac fel rhan o hyn mae'r Comisiynydd yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth • Y Bwrdd Gweithlu Trawsnewidiol • Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu • Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu • Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan • Bwrdd Plismona Cymru • Grŵp Plismona Cymru Gyfan, ac yn 2019/20, ef fydd cadeirydd y grŵp